



Sylwadau ar Bleidlais Contract Addysg Bellach Cenedlaethol Cymru - i BOB Gweithiwr

Cyflwyniad

Bydd angen i chi ddarllen dwy ddogfen er mwyn deall yr hyn sydd yn y contract newydd a sut y bydd yn cael ei weithredu:

- **Contract Cenedlaethol Cymru** ei hun (y fersiwn sy'n berthnasol i'ch math o contract o'r rhestr isod)
- **Y Cytundeb Gweithredu** sy'n effeithio ar amseriad cyflwyno'r contract ar gyfer grwpiau staff a'r amddiffyniadau sydd ar gael i unigolion

Bydd angen i ddarlithwyr ystyried hefyd:

- **Y Cytundeb Cenedlaethol ar Ddyraniad Llwyth Gwaith Darlithwyr ar gyfer Colegau Addysg Bellach yng Nghymru**

Argymhelliad

Mae Cyd-Undebau Llafur Cymru yn argymhell derbyn y contract hwn, fel y gorau y gallwn ei gyflawni trwy drafodaeth, am y rhesymau a ganlyn: mae'n cynnig amddiffyniad sy'n rhwystro colegau unigol, sy'n awyddus i dorri costau, rhag gwaethygu'ch amodau gwaith; erbyn 1 Medi 2016 bydd yr holl weithwyr ar Contract Cenedlaethol; bydd yn rhoi hawl cytundebol i raddfa gyflog genedlaethol; bydd yn gwahardd contractau dim-oriau; a bydd yn rhoi'r hawl i **gyflog byw** i'r holl weithwyr a gyflogir yn uniongyrchol wedi'i ddyddio'n ôl i 1 Awst 2013.

Y Contract

Mae'r Contract Cenedlaethol wedi'i ddrafftio i gytuno, o fewn cyfyngiadau cyllideb cyfredol, ar delerau ac amodau'r holl weithwyr sy'n gweithio o fewn y sector Addysg Bellach yng Nghymru. Mae deg fersiwn ar wahân ar gyfer y gwahanol fathau o gontractau sy'n cael eu defnyddio o fewn Addysg Bellach, sef:

1. Graddfa Reoli Cyflogedig Llawn Amser Parhaol
2. Graddfa Reoli Cyflogedig Ffracsiynol Parhaol
3. Darlithydd Cyflogedig Llawn Amser Parhaol
4. Darlithydd Cyflogedig Ffracsiynol Parhaol
5. Darlithydd Rhan Amser a Delir Fesul Awr Parhaol
6. Cymorth Busnes Cyflogedig Llawn Amser Parhaol
7. Cymorth Busnes Ffracsiynol Parhaol
8. Cymorth Busnes Cyflogedig yn ystod y tymor Llawn Amser a Pharhaol
9. Cymorth Busnes Cyflogedig yn ystod y tymor Ffracsiynol a Pharhaol
10. Cymorth Busnes Rhan Amser a Delir Fesul Awr Parhaol

Ymdrinnir â phrif delerau'r contract gan y cynnig a wnaed gan GolegauCymru ym mis Ebrill 2013 a'r rheini yw:

Staff graddfa reoli

- 37 diwrnod o wyliau ynghyd â 8 gŵyl banc ynghyd â hyd at 5 diwrnod effeithlonrwydd
- Cytundeb i drafod polisi amser in lieu (TOIL) ar gyfer rheolwyr

Darlithwyr

- Wythnos 37 awr gyda'r hawl i weithio 5 awr oddi ar y safle
- Uchafswm o 835 o oriau cyswllt blynyddol
- Uchafswm o 24 o oriau cyswllt wythnosol gyda hyd at 2 awr ychwanegol yr wythnos ar gyfer uchafswm o 7 wythnos, fel arfer yn ystod y tymor cyntaf
- Uchafswm o 24 sesiwn addysgu'r wythnos
- Darlithwyr prawf (*probationary*) i gyflwyno uchafswm o 90% o'r contract blynyddol gydag o leiaf 10% (un sesiwn) yn cael ei gadw'n rhydd
- Darlithwyr sy'n ymgymryd â chymhwyster addysgu proffesiynol i gyflwyno uchafswm o 90% o'r cytundeb blynyddol gydag o leiaf 10% (un sesiwn) yn cael ei gadw'n rhydd
- 46 diwrnod o wyliau ynghyd â 8 gŵyl banc ynghyd â hyd at 5 diwrnod effeithlonrwydd (gydag o leiaf 20 diwrnod di-dor o wyliau unwaith y flwyddyn)
- 20 munud ar gyfer paratoi a marcio ar gyfer staff sy'n cael eu talu fesul awr - y cyfrifiad hwn i gael ei ddefnyddio fel dull o bennu cyflog ar gyfer staff sy'n cael eu talu fesul awr yn unig
- Dileu'r geiriau 'gweinyddiaeth ystafell ddosbarth' o gytundeb darlithwyr rhan amser (para 3.2 (ii), a wnaed yn 2005)
- 5 diwrnod o weithgaredd ysgolheigaidd cyfeiriedig
- Gofyniad i ymgymryd â 30 awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus bob blwyddyn (bydd trefniadau pro-rata yn berthnasol i staff ffracsïynol a staff sy'n cael eu talu fesul awr rhan amser)

Cymorth Busnes

- 28-32 diwrnod o wyliau blynyddol (yn gysylltiedig â blynyddoedd gwasanaeth) ynghyd â 8 gŵyl banc ynghyd â 5 diwrnod effeithlonrwydd
- Cytundeb i drafod graddfa gyflog gyffredin ar gyfer staff cymorth busnes ar ôl y trafodaethau ar y contract cyffredin
- Cyflwyno'r cyflog byw i bob gweithiwr a gyflogir yn uniongyrchol

Gweithredu

Mae Colegau Cymru wedi cytuno ar strategaeth weithredu gyda'r cyd-undebau llafur ble y gallai'r contract newydd o fewn rhai colegau gael eu cyflwyno'n raddol dros amser. Mae'r cytundeb yn gofyn i'r colegau weithredu'r contract ar gyfer yr holl staff erbyn 1 Medi 2016. Bydd staff yn gallu cadw eu contract cyfredol hyd at 31 Awst 2016.

Pwyntiau Ychwanegol

Bydd Colegau Cymru yn parhau i weithio gyda'r cyd-undebau llafur ar reoli newid ac ar ystod o bolisiâu ar ôl mis Ebrill 2014.

Arweiniad

Bydd y Cyd-Undebau Llafur yn mynd ati i ddrafftio arweiniad ar gyfer ein haelodau unwaith y mae'r contract wedi cael ei dderbyn gan ein haelodaeth.

Pleidleisiwch 'Ydw' yn y bleidlais

AMIE ATL GMB NASUWT UCAC UCU UNISON UNITE
Cydweithlo i hyrwyddo addysg